OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2013 Rhif 2274 (Cy. 220)

2013 No. 2274 (W. 220)

PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

CHILDREN AND YOUNG PERSONS, WALES

Rheoliadau Deddf Gofal Plant 2006 (Asesiadau Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2013

The Childcare Act 2006 (Local Authority Assessment) (Wales) Regulations 2013

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu Rheoliadau Deddf Gofal Plant 2006 (Asesiadau Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2008 ("Rheoliadau 2008") ac yn eu hail-wneud er mwyn cywiro gwallau technegol yn Rheoliadau 2008 a chynnwys cyfeiriadau at gredyd cynhwysol yn ogystal â chredyd treth gwaith a gaiff, yn rhinwedd Deddf Diwygio Lles 2012, ei ddisodli gan gredyd cynhwysol.

Mae rheoliad 3 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i gynnal asesiadau o ddigonolrwydd gofal plant yn ardal yr awdurdod lleol.

Mae rheoliad 4 yn nodi'r materion i'w cynnwys yn yr asesiad.

Mae rheoliadau 5 a 6 yn rhagnodi'r personau i ymgynghori â hwy wrth lunio'r asesiadau ac mae rheoliad 7 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol roi cyfle i'r personau y cyfeirir atynt yn rheoliadau 5 a 6 gyflwyno sylwadau ar grynodeb drafft o'r asesiad cyn iddo gael ei gyhoeddi.

Mae rheoliadau 9 i 11 yn ymdrin â'r gofynion o ran cyhoeddi'r crynodeb o'r asesiad.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hwn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations revoke the Childcare Act 2006 (Local Authority Assessment) (Wales) Regulations 2008 ("the 2008 Regulations") and remake them in order to rectify technical errors in the 2008 Regulations and to include references to universal credit in addition to working tax credit which, by virtue of the Welfare Reform Act 2012, will be replaced by universal credit.

Regulation 3 imposes a duty upon local authorities to carry out childcare sufficiency assessments in the local authority area.

Regulation 4 sets out the matters to be contained in the assessment.

Regulations 5 and 6 prescribe the persons to be consulted in preparing the assessments and regulation 7 requires local authorities to allow the persons referred to in regulations 5 and 6 the opportunity to comment upon a draft summary of the assessment before publication.

Regulations 9 to 11 deal with the requirements of publishing the summary of the assessment.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2013 Rhif 2274 (Cy. 220)

PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

Rheoliadau Deddf Gofal Plant 2006 (Asesiadau Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2013

Gwnaed *5 Medi 2013*

Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru *10 Medi 2013*

Yn dod i rym *1 Hydref 2013*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adran 26(1)(a) a (2) o Ddeddf Gofal Plant 2006(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Gofal Plant 2006 (Asesiadau Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2013.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Hydref 2013.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "asesiad" ("*assessment*") yw'r asesiad a gynhelir gan awdurdod lleol yn unol â'r Rheoliadau hyn;

ystyr "darparydd gofal plant" ("*childcare provider*") yw unrhyw berson sy'n darparu gofal plant;

(**1**) 2006 p.21.

(**2**) Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru ac maent wedi eu breinio bellach ynddynt.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2013 No. 2274 (W. 220)

CHILDREN AND YOUNG PERSONS, WALES

The Childcare Act 2006 (Local Authority Assessment) (Wales) Regulations 2013

Made *5 September 2013*

Laid before the National Assembly for Wales *10 September 2013*

Coming into force *1 October 2013*

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred on the National Assembly for Wales by section 26(1)(a) and (2) of the Childcare Act 2006(**1**) and now vested in them(**2**) make the following Regulations:

Title, commencement and application

1.—(1) The title of these Regulations is The Childcare Act 2006 (Local Authority Assessment) (Wales) Regulations 2013.

(2) These Regulations come into force on 1 October 2013.

(3) These Regulations apply in relation to Wales.

Interpretation

2.—(1) In these Regulations—

"the Act" (*"y Ddeddf"*) means the Childcare Act 2006;

"assessment" (*"asesiad"*) means the assessment carried out by a local authority in accordance with these Regulations;

(**1**) 2006 c.21.

(**2**) By virtue of section 162 and paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c.32), the functions of the National Assembly for Wales were transferred to, and now vest in, the Welsh Ministers.

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Gofal Plant 2006;

ystyr "hyd sesiwn" ("*session length*") yw'r cyfnod hiraf o amser y bydd darparydd gofal plant yn gofalu am blentyn mewn diwrnod.

(2) Yn y Rheoliadau hyn, y mathau o ofal plant yw—

(a) gwarchod plant;

(b) gofal dydd llawn;

(c) gofal sesiynol;

(d) gofal y tu allan i oriau ysgol; ac

(e) crèches.

"childcare provider" (*"darparydd gofal plant"*) means any person who provides childcare;

"session length" (*"hyd sesiwn"*) means the maximum period of time for which a childcare provider will care for a child in a day.

(2) In these Regulations, the types of childcare are—

(a) childminding;

(b) full day care;

(c) sessional care;

(d) out of school care; and

(e) crèches.

Dyletswydd i lunio asesiadau

3.—(1) Rhaid i bob awdurdod lleol lunio asesiadau o ddigonolrwydd y gofal plant a ddarperir yn ei ardal.

(2) Rhaid cyhoeddi'r asesiad cyntaf a lunnir gan bob awdurdod lleol, yn unol â'r Rheoliadau hyn, erbyn 30 Ebrill 2014 a phob 3 blynedd wedi hynny.

(3) Wrth lunio asesiadau rhaid i awdurdodau lleol roi sylw i unrhyw ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru.

Duty to prepare assessments

3.—(1) Each local authority must prepare assessments of the sufficiency of the provision of childcare in its area.

(2) The first assessment prepared by each local authority, in accordance with these Regulations, must be published by 30 April 2014 and at intervals of 3 years thereafter.

(3) In preparing assessments local authorities must have regard to any guidance given by Welsh Ministers.

Materion i'w cynnwys yn yr asesiad

4.—(1) Rhaid i asesiad yr awdurdod lleol gynnwys, ar gyfer ei ardal awdurdod lleol, mewn cysylltiad â phob math o ofal plant ac o ystyried gwahanol oedrannau'r plant, fanylion am—

(a) nifer y lleoedd sy'n ofynnol;

(b) nifer y lleoedd sydd ar gael;

(c) nifer y lleoedd sy'n ofynnol y caniateir i'r elfen gofal plant o gredyd treth gwaith neu'r elfen costau gofal plant o gredyd cynhwysol gael ei defnyddio ar eu cyfer;

(d) nifer y lleoedd sydd ar gael y gallai rhieni ddefnyddio'r elfen gofal plant o gredyd treth gwaith neu'r elfen costau gofal plant o gredyd cynhwysol ar eu cyfer;

(e) yr adegau pan fo'r gofal plant yn ofynnol;

(f) yr adegau pan fo'r gofal plant ar gael;

(g) ystod yr hydoedd sesiwn a gynigir gan ddarparwyr gofal plant;

(h) nifer y lleoedd sy'n ofynnol sy'n addas i blant ag anghenion addysgol arbennig neu y mae angen gofal arbenigol arnynt oherwydd anabledd;

(i) nifer y lleoedd sydd ar gael sy'n addas i blant ag anghenion addysgol arbennig neu y mae

Matters to be contained in the assessment

4.—(1) The local authority's assessment must include for its local authority area, in respect of each type of childcare and taking into account the different ages of children, details of—

(a) the number of places required;

(b) the number of places available;

(c) the number of places required in respect of which the childcare element of working tax credit or the childcare costs element of universal credit may be used;

(d) the number of places available for which parents would be able to use the childcare element of working tax credit or the childcare costs element of universal credit;

(e) the times at which the childcare is required;

(f) the times at which the childcare is available;

(g) the range of session lengths offered by childcare providers;

(h) the number of places required which are suitable for children who have special educational needs or who require specialist care due to a disability;

(i) the number of places available which are suitable for children who have special

angen gofal arbenigol arnynt oherwydd anabledd;

(j) nifer y lleoedd sy'n ofynnol ar gyfer gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog;

(k) nifer y lleoedd sydd ar gael ar gyfer gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog;

(l) nifer y lleoedd gwag a'r lleoedd sydd heb eu defnyddio; ac

(m) ystod y taliadau ar gyfer y gofal plant.

(2) Rhaid i'r asesiad gynnwys crynodeb o anghenion gofal plant nad ydynt yn cael eu diwallu yn ardal yr awdurdod lleol gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â'r canlynol—

(a) y mathau o ofal plant sydd ar gael;

(b) oedran y plant y mae gofal plant ar gael iddynt;

(c) fforddiadwyedd gofal plant;

(d) adegau pan fo gofal plant ar gael;

(e) anghenion penodol plant anabl;

(f) argaeledd gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog; ac

(g) lleoliad y gofal plant.

(3) Yn y rheoliad hwn, ystyr "elfen costau gofal plant o gredyd cynhwysol" ("*child care costs element of universal credit*") yw swm a gynhwysir mewn dyfarniad o gredyd cynhwysol o dan adran 12 o Ddeddf Diwygio Lles 2012(**1**) ac a ragnodir yn Rheoliadau Credyd Cynhwysol 2013(**2**).

Ymgynghori

5. Wrth lunio'r asesiad, rhaid i'r awdurdod lleol ymgynghori â'r canlynol—

(a) plant;

(b) rhieni neu ofalwyr;

(c) darparwyr gofal plant;

(d) personau sy'n cynrychioli plant, rhieni neu ofalwyr a darparwyr gofal plant;

(e) personau a chanddynt fuddiant mewn gofal plant a phersonau sy'n cynrychioli'r rheini a chanddynt fuddiant mewn gofal plant;

(f) personau sy'n cynrychioli cyflogwyr a chyrff cyflogwyr lleol;

(g) cyflogwyr lleol;

(h) awdurdodau lleol cyfagos;

(**1**) 2012 p.5.
(**2**) O.S. 2013/376.

educational needs or who require specialist care due to a disability;

(j) the number of Welsh language and bilingual childcare places required;

(k) the number of Welsh language and bilingual childcare places available;

(l) the number of vacant and unused places; and

(m) the range of charges for the childcare.

(2) The assessment must include a summary of childcare needs which are not met in the local authority area including those which relate to the—

(a) types of childcare available;

(b) age of children for whom childcare is available;

(c) affordability of childcare;

(d) times at which childcare is available;

(e) specific needs of disabled children;

(f) availability of Welsh language and bilingual childcare; and

(g) location of childcare.

(3) In this regulation "child care costs element of universal credit" ("*elfen costau gofal plant o gredyd cynhwysol*") means an amount included in an award of universal credit under section 12 of the Welfare Reform Act 2012(**1**) and prescribed in the Universal Credit Regulations 2013(**2**).

Consultation

5. In preparing the assessment, the local authority must consult such—

(a) children;

(b) parents or carers;

(c) childcare providers;

(d) persons representing children, parents or carers and childcare providers;

(e) persons with an interest in childcare and persons representing those with an interest in childcare;

(f) persons representing local employers and employer organisations;

(g) local employers;

(h) neighbouring local authorities;

(**1**) 2012 c. 5.
(**2**) S.I. 2013/376.

(i) ysgolion; a

(j) colegau addysg bellach

sydd yn ardal yr awdurdod lleol sy'n briodol yn ei farn ef.

6.—(1) Wrth lunio'r asesiad, rhaid i'r awdurdod lleol—

(a) ymgynghori â'r Bwrdd Lleol ar gyfer Diogelu Plant; a

(b) hysbysu unrhyw swyddfeydd Canolfan Byd Gwaith yn ardal yr awdurdod lleol a'u gwahodd i gyflwyno unrhyw sylwadau.

Crynodeb Drafft

7. Cyn cyhoeddi crynodeb o'r asesiad a gynhelir o dan y Rheoliadau hyn, rhaid i'r awdurdod lleol anfon drafft o'r crynodeb o'r asesiad y mae'n bwriadu ei gyhoeddi at y personau a restrir yn rheoliadau 5 a 6 er mwyn rhoi cyfle iddynt gyflwyno sylwadau ar y drafft.

8. Rhaid i'r awdurdod lleol ddiwygio'r crynodeb drafft o'r asesiad yn y dull sy'n briodol yn ei farn ef wrth ymateb i unrhyw sylwadau a geir gan bersonau a restrir yn rheoliadau 5 a 6.

Cyhoeddi'r Asesiad

9. Rhaid i'r awdurdod lleol gyhoeddi crynodeb o'r asesiad ar wefan yr awdurdod lleol.

10. Rhaid i'r awdurdod lleol adneuo copïau o'r crynodeb o'r asesiad mewn llyfrgelloedd cyhoeddus, lleoliadau gofal plant, ysgolion a mannau cyhoeddus eraill sy'n briodol yn ei farn ef.

11. Rhaid i'r crynodeb o'r asesiad gynnwys—

(a) yr wybodaeth a bennir yn rheoliad 4(1) mewn cysylltiad ag ardal yr awdurdod lleol; a

(b) yr wybodaeth a bennir yn rheoliad 4(2).

Dirymu

12. Mae Rheoliadau Deddf Gofal Plant 2006 (Asesiadau Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2008(**1**) wedi eu dirymu.

(**1**) O.S. 2008/169 (Cy.22).

(i) schools; and

(j) further education colleges

in the local authority's area as it considers appropriate.

6.—(1) In preparing the assessment the local authority must—

(a) consult the Local Safeguarding Children Board; and

(b) notify any Jobcentre Plus offices in the local authority's area and invite the submission of any views.

Draft Summary

7. Prior to publishing a summary of the assessment carried out under these Regulations, the local authority must send a draft of the summary of the assessment which they propose to publish to the persons listed in regulations 5 and 6 to allow them the opportunity to comment on the draft.

8. The local authority must amend the draft summary of the assessment in such way as they consider appropriate in response to any comments received from persons listed in regulations 5 and 6.

Publication of Assessment

9. The local authority must publish a summary of the assessment on the local authority website.

10. The local authority must deposit copies of the summary of the assessment in such public libraries, childcare settings, schools and other public places as they consider appropriate.

11. The summary of the assessment must include—

(a) the information specified in regulation 4(1) in respect of the local authority area; and

(b) the information specified in regulation 4(2).

Revocation

12. The Childcare Act 2006 (Local Authority Assessment) (Wales) Regulations 2008(**1**) are revoked.

(**1**) S.I. 2008/169 (W.22).

Jeff Cuthbert

Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, un o Weinidogion Cymru

5 Medi 2013

Minister for Communities and Tackling Poverty, one of the Welsh Ministers

5 September 2013

©ⓑ Hawlfraint y Goron 2013

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2013

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2013 Rhif 2274 (Cy. 220)

2013 No. 2274 (W. 220)

PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

CHILDREN AND YOUNG PERSONS, WALES

Rheoliadau Deddf Gofal Plant 2006 (Asesiadau Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2013

The Childcare Act 2006 (Local Authority Assessment) (Wales) Regulations 2013

ISBN 978-0-348-10803-3

9 780348 108033

£5.75

W1711/09/13 ON